| **Atodiad 3** | **Appendix 3** |
|---|---|
| **Ymatebion i'r Cynnig Drafft – Cymunedau Bethesda a Llenllechid** | **Responses to the Draft Proposal – Bethesda and Llanllechid Communities** |
| <u>Cyngor Cymuned Bethesda</u><br><br>Dim pryderon gwirioneddol i'r newidiadau yma. Mae'r Cyngor Cymunedol yn eisiau annog Cyngor Gwynedd i gweithio gyda thrigolion cyn penderfynu ar y ffin terfynol i sicrhau fod y tai / gerddi / tir cywir yn cael ei roi yn yr ward Rachub hefyd.<br>Dyma oedd yr 2 sylwad o'r thrigolion lleol:·<br>Fod cost treth cyngor yn debygol o godi tua £20 y flwyddyn wrth symud o ward Llanllechid i ward Rachub.·<br>Bydd posib pleidleisio yn agosach wedyn (yn lle mynd i Talybont). | <u>Bethesda Community Council</u><br><br>No real concerns as to these changes. The Community Council wants to encourage Gwynedd Council to work with residents before deciding on the final boundary to ensure that the right houses/gardens/land are also placed in the Rachub ward. Here were the 2 comments from the local residents:· That the cost of council tax is likely to rise by around £20 a year when moving from the Llanllechid ward to the Rachub ward.· It will be nearer to go to go to vote afterwards (instead of going to Talybont). |
| <u>Cynghorydd Cymuned Bethesda – Ward Rachub</u><br><br>Mae angen addasu llinell y ffîn newydd. Llinell ddrafft oedd yr un flaenorol a gyflwynwyd<br>Mi fuasai addasu'r ffin i ddilyn y linell goch uchod yn sicrau bod Cae Rhosydd, Llwyn Bedw (i gyd) a tir ger Bron Arfon yn ddarn o ward Rachub. Buasai'r linell yma yn creu ffin daclus rhwng y ddwy ward a sicrhau nad yw gerddi ayyb yn cael ei rhannu rhwng dwy ward. | <u>Bethesda Community Councillor – Rachub Ward</u><br><br>The new boundary line needs to be adjusted. The previous one put forward was a draft line. Adjusting the boundary to follow the red line above would ensure that Cae Rhosydd, Llwyn Bedw (all) and land near Bron Arfon are part of the Rachub ward. This line would create a neat boundary between the two wards and ensure that gardens etc are not split between two wards. |
| <u>Cynghorydd Cyngor Gwynedd Ward Rachub</u><br><br>Mae stad Llwyn Bedw yn ddaearyddol yn rhan o bentref Rachub, rhan o gymuned Bethesda, gyda dau dŷ o fewn ffiniau'r gymuned a'r gweddill tu allan i'r ffin, yng nghymuned Llanllechid. Mae trigolion y ddau dŷ yn pleidleisio yn Rachub, ryw 100 metr i ffwrdd a thrigolion gweddill y stad yn Nhalybont, ryw ddwy filltir i ffwrdd.<br>Mae'r cynnig yn cysoni hyn, gan ddod â phawb ar y stad o fewn ffin Bethesda ac rwy'n croesawu hynny. Serch hynny, mae'n ymddangos bod y ffin arfaethedig yn mynd trwy gae tu ôl i'r stad. Mae'r cae dan | <u>Gwynedd Member for Rachub Ward</u><br><br>The Llwyn Bedw estate is geographically part of the village of Rachub, part of the community of Bethesda, with two houses within the community boundaries and the remainder outside the boundary, in the community of Llanllechid. Residents of both houses vote in Rachub, about 100 metres away, and residents of the rest of the estate in Talybont, about two miles away.<br>The proposal reconciles this, bringing everyone on the estate within the Bethesda boundary and I welcome that. Nevertheless, the proposed boundary appears to pass |

| | |
|---|---|
| ystyriaeth ar hyn o bryd ar gyfer dynodiad fel safle ymgeisiol ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol nesaf. Petai'r cae yn cael ei ddatblygu, gallai stad newydd o dai gael ei rhannu rhwng y ddwy gymuned. Dylid ystyried cynnwys y cyfan o'r cae hwn o fewn cymuned Bethesda.<br>Mae stad newydd o dai, Cae Rhosydd, wedi cael ei datblygu wrth ymyl Llwyn Bedw. Fel y rhan fwyaf o Lwyn Bedw, mae'r stad hon hefyd yn ddaearyddol yn rhan o bentref Rachub, ond fe'i lleolir tu hwnt i ffiniau cymuned Bethesda. Mae'r trigolion yn gorfod teithio i Dalybont i bleidleisio, yn lle Rachub. Rwy'n argymell y dylai'r stad hon hefyd gael ei chynnwys o fewn cymuned Bethesda.<br>Yn ogystal â'r tai presennol yn Llwyn Bedw a Chae Rhosydd, dwi'n awgrymu tynnu llinell y ffin i gynnwys y safle posib [cyfeirnod 127 Cofrestr Safleoedd Posib, Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd 2024-2039] rhag ofn iddo gael ei ddynodi ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd. | through a field behind the estate. The field is currently under consideration for designation as a candidate site for housing in the next Local Development Plan. Should the field be developed, a new housing estate could be shared between the two communities. Consideration should be given to the inclusion of all of this field within the community of Bethesda.<br>A new housing estate, Cae Rhosydd, has been developed next to Llwyn Bedw. Like most of Llwyn Bedw, this estate is also geographically part of the village of Rachub, but is located beyond the boundaries of the community of Bethesda. Residents have to travel to Talybont to vote, instead of Rachub. I recommend that this estate should also be included within the community of Bethesda.<br>In addition to the existing houses at Llwyn Bedw and Cae Rhosydd, I suggest drawing the boundary line to include the potential site [ref. 127 Register of Potential Sites, Gwynedd Local Development Plan 2024-2039] in case it is designated for housing in the new Local Development Plan. |